**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Nick Bennett
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

16 Mawrth 2017

Annwyl Nick

**BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU) DRAFFT**

Diolch i chi am ddod gerbron y Pwyllgor i drafod yr asesiad effaith rheoleiddiol y bu i chi ei gomisiynu ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft. Cawsom y sesiwn yn hynod o ddefnyddiol, ac rydym o blaid bwrw ymlaen i gyflwyno'r Bil drafft.

Fodd bynnag, bydd angen gwybodaeth bellach arnom, yn arbennig ar gostau anuniongyrchol y Bil, er mwyn cydymffurfio â Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Hefyd, gan mai prif swyddogaeth y Pwyllgor Cyllid yw ystyried gwariant Cronfa Gyfunol Cymru, rydym yn credu ei bod yn hanfodol i unrhyw Fil a gyflwynir gynnwys manylion costau. Byddai'n gam gwag gennym ni fel Pwyllgor i gynnig Bil i'w gyflwyno nad ydym yn fodlon ar ei safon.

Rydym yn cydnabod bod heriau a chyfyngiadau o ran meintioli'r costau hyn oherwydd y diffyg tystiolaeth a data sydd ar gael, ac rydym yn nodi ichi wneud sylwadau yn dweud y gellid ystyried y gwaith ymchwil ychwanegol a fyddai angen er mwyn cael rhagor o ddata i fod yn anghymesur.

Serch hynny, rydym o'r farn y dylech allu cynnig eich amcangyfrif gorau ar gyfer y costau ar gyfer y rheiny a effeithir gan gynigion y Bil yn seiliedig ar y gwaith yr ydych eisoes yn ei gynnal, er mwyn bodloni gofynion Rheol Sefydlog 26.6(viii) yn llwyr.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Byddem yn ddiolchgar o dderbyn y wybodaeth hon gennych erbyn diwedd mis Ebrill os yn bosibl.

Yn gywir

Simon Thomas
**Cadeirydd**